

**Datganiad PPB/PEB/RCB Safonol S4C**  
**Darllediadau Gwleidyddol, Darllediadau Etholiadol a Darllediadau Ymgyrchoedd**  
**Refferendwm (PPB/PEB/RCBs)**

|   |   |
|---|---|
| <b>Enw'r Blaid</b>  |   |
| <b>Teitl y PPB/PEB/RCB</b>  | <i>e.e. Darllediad Etholiad Seneddol 2015</i> |
| <b>Dyddiad Darlledu (yn fras)</b>   |   |
| <b>Dyddiad Cyfleu</b>   |   |
| <b>Cysylltiadau Allweddol y Blaid</b>   |   |
| <p>Rwy'n datgan:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i) bod gen i awdurdod y Blaid i arwyddo'r Datganiad hwn ar ei rhan;</li> <li>ii) bod y Blaid drwy hyn yn rhoi trwydded ddi-alw-yn-ôl, parhaol, an-ecsgliwsif i S4C ddarlledu'r PPB/PEB/RCB ar bob gwasanaeth a ddarperir gan, ar ran neu gyda chaniatâd S4C ar unrhyw blatfform yn fyd-eang am byth heb unrhyw daliad pellach i ni neu i unrhyw drydydd parti;</li> <li>iii) nad oes dim yn y PPB/PEB/RCB yn tarfu ar unrhyw hawliau confensiwn fel y'u diffinnir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 unrhyw unigolyn nac yn tresmasu ar unrhyw hawlfraint, nod masnachu, hawl preifatrwydd, hawl cyhoeddusrwydd nac unrhyw hawl arall o unrhyw fath arall sy'n perthyn i unrhyw berson, ac na fydd yn anllad nac yn enllibus, yn gableddus nac yn absennus, nac yn torri darpariaethau unrhyw statudau (gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a thriniaeth deg), rheoliadau neu orchmynion;</li> <li>iv) bod y Blaid wedi sicrhau er budd S4C pob hawl trwydded cliriad ildiad caniatâd a rhyddhad perthnasol mewn perthynas â'r PPB/PEB/RCB yn rhydd o bob cyfyngiad, llyffethair a thaliad pellach gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, bob hawl trwydded cliriad caniatâd a rhyddhad penodol i ddarlledu: <ul style="list-style-type: none"> <li>a. unrhyw ffotograff sydd wedi ei ymgorffori yn y PPB/PEB/RCB;</li> <li>b. unrhyw gerddoriaeth sydd wedi ei ymgorffori yn y PPB/PEB/RCB;</li> <li>c. unrhyw ddeunydd archif sydd wedi ei ymgorffori yn y PPB/PEB/RCB;</li> <li>ch. unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n ymddangos mewn modd amlwg neu adnabyddadwy yn y PPB/PEB/RCB (a lle bo'r PPB/PEB/RCB yn cynnwys plentyn o dan 16 mlwydd oed, mae'r Blaid wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gan ei riant neu warchodwr);</li> <li>d. unrhyw ddeunydd arall sydd wedi ei ymgorffori yn y PPB/PEB/RCB neu y mae'r PPB/PEB/RCB wedi ei seilio arno y mae unrhyw rai o'r hawliau hawlfraint neu unrhyw hawliau eraill o ba bynnag natur wedi eu breinio yn unrhyw drydydd parti neu a reolir ganddynt;</li> </ul> </li> <li>v) bod y PPB/PEB/RCB yn cydymffurfio â 'Chanllawiau S4C i Bleidiau Gwleidyddol neu Sefydliadau Dynodedig ar gyfer Cynhyrchu Darllediadau Gwleidyddol, Etholiadol neu Ymgyrchoedd Refferendwm (PPB, PEB, RCBs)' sydd ar gael ar wefan gynhyrchu S4C yn <a href="http://www.s4c.cymru/media/media_assets/2015_10_27_Canllawiau_S4C_i_Bleidiau_Gwleidyddol2017_1.pdf">http://www.s4c.cymru/media/media_assets/2015_10_27_Canllawiau_S4C_i_Bleidiau_Gwleidyddol2017_1.pdf</a></li> <li>vi) nad yw'r PPB/PEB/RCB yn gamarweiniol neu'n anghywir;</li> </ul> |   |

- vii) nad yw'r PPB/PEB/RCB yn cynnwys detholiadau o recordiadau o drafodion yn Senedd San Steffan;
- viii) lle bo'r PPB/PEB/RCB yn cynnwys detholiadau o recordiadau o drafodion yn Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd Gogledd Iwerddon a/neu Senedd Llundain sy'n cynnwys araith neu ddeholiad gan aelod o'n plaid gwleidyddol ni, ein bod wedi cael caniatâd pob aelod perthnasol. Lle bo detholiadau mewn sain neu mewn llun o aelodau nad ydynt yn aelodau o'n plaid gwleidyddol ni, rydym wedi cael caniatâd yr aelod a'r blaid berthnasol ill dau;
- ix) lle bo'r PPB/PEB/RCB yn cynnwys clipiau archif neu newyddion o aelodau unrhyw blaid wleidyddol arall, ein bod wedi cael caniatâd yr unigolyn a'r blaid berthnasol. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd gweledol a chlywedol ill dau;
- x) lle bo ymgeiswyr wedi eu cynnwys yn y PPB/PEB/RCB, yn ddarostyngedig i Ganllawiau Cynhyrchu'r BLG, nad yw'r PPB/PEB/RCB yn cynnwys unrhyw gyfeiriad llafar neu weledol amlwg at eu hetholaethau;
- xi) lle bo'r PPB/PEB/RCB yn cynnwys defnydd o adluniadau (*reconstructions*) neu actorion a bod yna bosibilrwydd y gallai'r gynulleidfa gael ei drysu neu ei chamarwain, bod y defnydd o'r fath adluniadau neu ymddangosiad y fath actorion wedi ei wneud yn amlwg i'r gynulleidfa o fewn y PPB/PEB/RCB;
- xii) oni bai y cytunir yn benodol ag S4C o leiaf wythnos cyn y darllediad, nad yw'r PPB/PEB/RCB yn cynnwys defnydd o rifau ffôn neu negeseuon testun;
- xiii) nad yw'r PPB/PEB/RCB yn cynnwys rhifau ffôn sy'n cynhyrchu incwm neu apeliadau am arian;
- xiv) lle bo'r PPB/PEB/RCB yn cynnwys clipiau o raglenni newyddion, nad yw'r clipiau'n enwi'r rhaglen lle cafwyd y clip, trwy logos ar y sgrîn, cerddoriaeth thema neu lais neu wyneb cyflwynydd/gohebydd;
- xv) bod y Blaid yn cytuno ac yn ymrwymo i roi indemniad llawn i S4C, ac i sicrhau bod yr indemniad hwnnw'n aros mewn grym bob amser, rhag ac yn erbyn pob colled (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw golli incwm neu golled economaidd arall), treuliau, hawliad, archeb, achos, cyfreitha, cost, iawndal neu daliadau eraill a ddioddefir, a fydd yn codi neu a ddyfernir ynghyd ag unrhyw iawndal y cytunir arno neu unrhyw atebolrwydd o ba bynnag natur neu o ble bynnag sy'n codi o ganlyniad i unrhyw dorri ar neu fethiant i gadw at unrhyw un o'r addewidion, ymrwymadau neu warantau a gynhwysir yma neu sy'n deillio mewn unrhyw ffordd o gynnwys llafar neu weladwy y PPB/PEB/RCB neu o ganlyniad i unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu anghyfreithlon neu esgeulustod gan y Blaid neu gan eich gweithiwr, asiant, gweithiwr llawrydd, isgontractiwr neu wahoddedig gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) hawliadau gan berchnogion hawliau neu gyfranwyr i'r PPB/PEB/RCB.

Rwy'n amgáu yn Atodlen 1 fanylion am unrhyw gerddoriaeth a ymgorfforir yn y PPB/PEB/RCB gan nodi a yw'r gerddoriaeth yn fasnachol, llyfrgell neu wedi ei gomisiynu'n arbennig.

Arwyddwyd dros ac ar ran y Blaid gan gynrychiolydd awdurdodedig:

.....

Dyddiad: .....

## Atodiad 1

### Manylion Cerddoriaeth

|                                   |  |
|-----------------------------------|--|
| Teitl y gwaith                    |  |
| Defnydd o'r gerddoriaeth          |  |
| Baner cerddoriaeth gomisiwn       |  |
| Label cynnyrch                    |  |
| Dosbarthiad tarddiad cerddoriaeth |  |
| Rhif ISRC                         |  |
| Rhif ISWC                         |  |
| Rhif Catalog Cynnyrch             |  |
| Rhif Trac                         |  |
| Cod amser i mewn                  |  |
| Cod amser allan                   |  |

### Manylion Cyfrannwr:

| Rôl                 | Enw cyntaf | Cyfenw | Cwmni/Grŵp |
|---------------------|------------|--------|------------|
| Cyfansoddwr         |            |        |            |
| Cyhoeddwr           |            |        |            |
| Perfformiwr         |            |        |            |
| Awdur geiriau'r gân |            |        |            |
| Gosodwr             |            |        |            |